**CYNGOR CYMUNED
LLANFIHANGEL-AR-ARTH
COMMUNITY COUNCIL**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# 2023-2024

Cymeradwywyd:
15.07.2024

**CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL-AR-ARTH**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023-2024**

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-Arth ar gyfer y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth, 2024.

Mae Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-Arth yn Gyngor anwleidyddol ac yn cynnwys 11 Cynghorydd Cymuned:

- Cyng. Martin Griffiths (Cadeirydd)
- Cyng. Dylan Davies (Is-Gadeirydd)
- Cyng. Annette Davies
- Cyng. Val Davies
- Cyng. Deian Griffiths
- Cyng. Angela Lake James
- Cyng. Glyn Jones
- Cyng. John Jones
- Cyng. Haulwen Lewis
- Cyng. Shirley Mason
- Cyng. Rhian Thomas

Rydym hefyd yn ddiolchgar i'r Cynghorydd Sir Linda Davies-Evans sydd yn mynychu ein cyfarfodydd yn rheolaidd yn ei rol fel Cynghorydd Sir ar gyfer ardal Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-Arth.

Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor ydy Mrs. S. Anita Evans, Frongelli, New Inn, Pencader, Sir Gâr. SA39 9AZ. Ffôn: 01559 384266.
e-bost: cyngorcymunedllanfihangelararth@outlook.com

Mae naw Cynghorydd yn preswylio o fewn yr ardal a wasanaethir gan y Cyngor, sef pentrefi/cymunedau Llanfihangel-ar-Arth, Pencader, Pontweli, New Inn, Gwyddgrug, Dolgran ac Alltwalis, gyda dau Gynghorydd yn preswyio o fewn y pellter a ganiateir tu allan i'r ardal. Mae un sedd wag yn bresennol.

Gyda thristwch mawr y cofnodwn farwolaeth y Cynghorydd Yvonne Griffiths a oedd wedi gwasanaethu'r Cyngor mewn modd cydwybodol a didwyll iawn dros nifer sylweddol o flynyddoedd. Cofnodwn ein diolch a'n gwerthfawrogiad am ei chyfraniad i waith y Cyngor ar hyd yr amser ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf gyda'r teulu.

Cofnodwn hefyd ein colled enfawr yn dilyn marwolaeth Mrs. Janet Jones, a fu yn ofalwraig yr Ardal Chwarae ym Mhencader dros gyfnod hir iawn. Unwaith yn rhagor, cofnodwn ein diolch a'n gwerthfawrogiad am ei theyrngarwch a'i chefnogaeth i'r Cyngor ar hyd y blynyddoedd ac estynnwn ein cydymdeimlad dwys a diffuant gyda'i theulu.

Dymunwn gofnodi ein diolch hefyd i'r Cyng. Mair Jones yn dilyn ei hymddiswyddiad ym Mis Gorffennaf 2023 gan ei bod yn symud i fyw i ardal arall.

Ym Mis Hydref 2023, pleser oedd croesawu dau aelod newydd i'r Cyngor, sef Cyng. Angela Lake James a'r Cyng. John Jones.

**Cyfarfodydd**

Mae'r Cyngor yn cyfarfod ar y 3ydd Nos Lun o bob mis yn Festri Capel Tabernacl, Pencader, ag eithrio misoedd Awst a Rhagfyr pan na chynhelir cyfarfod.

Yn ychwanegol at hyn, mae'r Is-Bwyllgor Cyllid yn cyfarfod bob chwarter i fonitro/adolygu sefyllfa ariannol y Cyngor, tra bod yr is-bwyllgorau eraill, sef Cynllunio, Safle We a Safleoedd, yn cyfarfod yn ôl yr angen.

**Cyllid**

Derbynia Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-Arth ei incwm yn bennaf drwy'r Precept. Ar gyfer y flwyddyn 2023-2024, roedd y swm yn £45000, sef yr union swm â'r flwyddyn flaenorol, 2022-2023.

Roedd gwariant y Cyngor yn ystod 2023-2024 yn bennaf ar gyfer y canlynol:

- Cyflogau Staff
- Taliad pellach i adnewyddu golau stryd i LED
- Cynnal a chadw safleoedd mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt, e.e. ardal chwarae, dwy fynwent, cyfleusterau cyhoeddus, cofeb rhyfel
- Cynnal a chadw'e cafnau blodau a seddau ymhob pentref o fewn ardal y Cyngor Cymuned
- Prynu rhagor o ddiffibrilwyr a'u cynnal a chadw
- Ceisiadau am gymorth ariannol, e.e. Mudiadau lleol – Yr Ardd, Pontweli, Ymchwil Cancr MacMillan, Elusen Cancr Plant, Gŵyl yr Afon Llandysul, Ambiwlans Awyr Cymru, Cerebral Palsy, Apêl y Pabi gan y Lleng Brydeinig, Clwb Ffermwyr Ifanc Sir Gâr, Eisteddfod Llanfihangel-ar-arth.

Derbyniodd un-ar-ddeg Cynghorydd y taliad lwfans blynyddol o £150.00 yr un, (rhai ar sail pro-rata yn unol â hyd eu gwasanaeth yn ystod y flwyddyn) sydd wedi ei osod gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Yn ychwanegol, hawliodd dau Gynghorydd y lwfans o £52.00 ar gyfer deunyddiau swyddfa. Roedd y cyfanswm a dalwyd i Gynghorwyr yn y flwyddyn 2023-2024 yn £1664.00.

Mae manylion gwariant y Cyngor ar gael yng Nghyfrifon Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2023-2024. Gweler safle we y Cyngor.

**Perthynas gyda Chyngor Sir Gâr**

Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos gyda'r Cynghorydd Sir Linda Davies-Evans sydd yn mynychu'r rhan fwyaf o'r cyfarfodydd, ac yn gefnogol wrth ddelio gydag unrhyw ymholiadau sydd gan y Cyngor a'r etholaeth ynglyn ag unrhyw wasanaethau neu faterion sydd yn effeithio ar unrhyw aelod o'r Gymuned.

Mae'r Cyngor yn gyson yn cyfathrebu gyda Chyngor Sir Caerfyrddin ynglyn ag unrhyw faterion a reolir gan y Cyngor Sir sydd wedi dod i'w sylw.

**Cynllun Hyfforddiant**

Mae'r Cyngor yn aelod o Un Llais Cymru sydd yn darparu'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant mae'r Cynghorwyr a'r Clerc yn ei ddilyn. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Polisi Hyfforddiant a Datblygiad yn ogystal â Chynllun Hyfforddiant sydd yn amlinelli'n fanwl unrhyw hyfforddiant arfaethedig y bwriedir ei ddilyn gan Gynghorwyr unigol yn ystod 2024-2025, yn ogystal â darparu gwybodaeth ynglyn ag hyfforddiant sydd wedi ddilyn yn ystod 2022-2023 a 2023-2024. Mae hwn yn parhau i gael ei adolygu yn

rheolaidd ac yn cael ei ddiweddaru yn ôl yr angen ar hyd y flwyddyn. Mae Cynghorwyr yn cael eu hysbysu yn gyson yn ein cyfarfodydd misol am gyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael.

**Awdit**

Mae Archwiliad Mewnol o'r cyfrifon yn flynyddol gan berson proffesiynol a benodir gan y Cyngor. Yn dilyn hynny, anfonir y cyfrifon i'w harchwilio'n allanol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Wedi i'r Archwiliad Allanol gael ei gwblhau, cyhoeddir y cyfrifon, ynghyd â barn yr Archwilydd, ar wefan y Cyngor. Ar gyfer y flwyddyn 2023-2024, bydd Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-Arth yn derbyn archwiliad cyffredinol yn unol â threfniadau newydd gan Swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol. Derbyniwyd archwiliad llawn yn ystod y flwyddyn 2022-2023. Mae hyn yn ofyniad newydd ers y flwyddyn 2021-2022 lle bod pob Cyngor Cymuned yn derbyn archwiliad llawn bod tair mlynedd, gydag archwiliad cyffredinol ymhob blwyddyn arall. Y flwyddyn hon, 2023-2024, felly, ydy'r drydedd flwyddyn yn y cylch tair mlynedd.

**Cwynion**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod y flwyddyn 2023-2024.

**Prif Amcanion ar Gyfer 2023-2024**

Prif amcanion y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf oedd:

- Adolygu gwaith sydd angen ei gyflawni ym Mynwent Pencader, ynghyd â gwaith cynnal a chadw yn ôl yr angen, yn enwedig yn ardal y fynedfa.
- Cwblhau trefniadau er mwyn hwyluso cyfarfodydd hybrid.
- Cwblhau y lês i drosglwyddo'r Cyfleusterau Cyhoeddus yn Alltwalis a Phencader.
- Paratoi a chyhoeddi Cynllun Bioamrywiaeth y Cyngor.
- Adolygu Cynllun Iaith y Cyngor.
- Diweddaru Safle We y Cyngor.

**Asedau**

Ardal Chwarae Pencader
Mynwent Pencader
Mynwent Capel Troedrhiw, Alltwalis
Y Gofeb Rhyfel ym Mhencader
Cofeb yr Hen Ŵr ym Mhencader
Tir sydd wedi ei nodi yn Ardal Bicnic yn Llanfihangel-ar-Arth.

**Trosglwyddo Asedau**

Mae trefniadau yn parhau mewn llaw ynglyn â throsglwyddo Lês y Cyfleusterau Cyhoeddus yn Alltwalis a Phencader o Gyngor Sir Caerfyrddin i Gyngor Cymuned Llanfihangel-ar-Arth.

**Gweithgareddau**

Parhau i gynnal a chadw offer chwarae yn Ardal Chwarae Pencader, sydd yn cael ei ddefnyddio'n health iawn, er mwyn sicrhau safle diogel i'w holl ymwelwyr.

Cynnal a chadw'r holl seddau a chafnau bolodau yn yr holl bentrefi a wasanaethir gan y Cyngor.

Cynnal a chadw Mynwentydd Pencader ac Alltwalis, y Gofeb Rhyfel a Chofeb yr Hen Ŵr ym Mhencader.

Sicrhau cynrhychiolaeth ar / cefnogaeth i bwyllgorau mudiadau lleol.

Trefnu'r Gwasanaeth Coffa Blynyddol wrth ymyl y Gofeb Rhyfel ym Mhencader ar Sul y Cofio.

**Cyflawniadau**

Darpariaeth bellach o ddiffibrilwyr a'u cynnal yn ôl y cynllun mewn mannau penodedig yn ardal y Cyngor Cymuned.

Cwblhau y gwaith ar adnewyddu'r Cyfleusterau Cyhoeddus ym Mhencader ac Alltwalis.

Darpariaeth CCTV tu allan i Bafiliwn Pencader a Chyfleusterau Cyhoeddus Pencader.

Darpariaeth bellach o oleuni LED ar draws yr ardal.

Adolygu Cynllun Iaith Cymraeg y Cyngor.

Diweddaru Safle We'r Cyngor.

**Blaenoriaethau**

Blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer 2024-2025 ydy:

- Adolygu gwaith sydd angen ei gyflawni ym Mynwent Pencader, ynghyd â gwaith cynnal a chadw yn ôl yr angen, yn enwedig yn ardal y fynedfa.
- Cwblhau trefniadau er mwyn hwyluso cyfarfodydd hybrid.
- Cwblhau y lês i drosglwyddo'r Cyfleusterau Cyhoeddus yn Alltwalis a Phencader.
- Parhau i gefnogi gwelliannau yn ein cymuned tra hefyd yn sicrhau cynnal a chadw'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd eisoes yn cael eu darparu.
- Paratoi a chyhoeddi Cynllun Bioamrywiaeth y Cyngor.
- Sicrhau bod dogfennau sydd angen eu cyhoeddi yn cael eu gosod ar safle we'r Cyngor.

---

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol 2023-2024 ar gyfer Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-arth. Mae'r adroddiad hwn yn nodi diwedd ail flwyddyn y tymor etholiadol. Yn ystod adeg o newid sylweddol i'r Cyngor, mae wedi bod yn galonogol i groesawi dau aelod newydd a mawr obeithiwn llenwi'r un sedd sydd yn weddill yn gynnar yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Fel y nodwch o ddarllen yr adroddiad, mae'r Cyngor wedi ymdrechu i symud ymlaen ar nifer o faterion yn y gymuned oedd angen sylw a bydd yn parhau i flaenoriaethu unrhyw faterion na lwyddwyd i'w cyflawni yn ystod 2023/2024 eto yn 2024/2025.

Manteisiaf ar y cyfle i ddiolch i'r holl Gynghorwyr am eu cefnogaeth parhaol, ymrwymiad a chyfraniad wrth wasanaethu'r gymuned, yn ogystal â chofnodi gwerthfawrogiad y Cyngor i aelodau'r etholaeth am eu cefnogaeth o waith y Cyngor yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Martin Griffiths
Cadeirydd – Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-Arth

---